Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership
Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

2020-2021

# Tystiolaeth i gefnogi SAC




**TYSTIOLAETH BOSIB AR GYFER DYFARNU SAC**

*I'W DEFNYDDIO GYDA'R CANLLAW PDP*

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC<br>(Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib<br>(Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
|  ***Addysgeg***<br>***Hyrwyddo dysgu trwy gymhwyso gwybodaeth a disgyblaeth pwnc yn effeithiol*** | | |
| **Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu** | *Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. cysylltiadau ystyrlon â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Cynnwys modiwl craidd, e.e. 008<br>• Pontio<br>• 'Datblygu Gwybodaeth Bwnc' (Tab 5) y PDP<br>• Adnoddau, e.e. defnyddio taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig. |
| **Pedwar diben i ddysgwyr** | *Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu.* | • Cynnwys modiwl craidd e.e.007, 008<br>• Pontio<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. gwahaniaethu amcanion dysgu, meini prawf llwyddiant<br>• Amrediad o adnoddau, e.e. defnyddio taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Cyfnewid Cyfnod<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Profiadau dysgu cyfunol** | *Mae'r darpar athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgol creadigol er budd* | • Enghreifftiau o weithio mewn ysgol Hwb a darparu adnoddau sy'n cefnogi dysgu |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | *pob dysgwr.* | cyfunol e.e. defnyddio apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer, amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n herio dysgwyr i gyflawni amcanion dysgu<br>• Pontio |
| **Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys** | *Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am ddefnyddio cyd-destunau go iawn, a hynny fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Mae hyn yn ehangu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol y dysgwr, ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o gysyniadau a haniaethau.* | • Pontio<br>• Cynnwys modiwl craidd e.e. 007, 008, 009<br>• Defnydd o ddata ysgol / dosbarth, e.e. Prydau Ysgol am Ddim (eFSM), Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol (E/WAL), Plant Dan Gofal (LAC).<br>• Amrediad o adnoddau, e.e. defnyddio taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Profiad Dewisol<br>• Cyfnewid Cyfnod<br>• Profiad Amgen |
| **Dilyniant mewn dysgu** | *Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth o sut mae dysgu'n datblygu fesul tipyn, gam wrth gam ac wrth fynd heibio gan adeiladu ar brofiadau blaenorol a'r hyn a ddysgwyd o'r blaen. Mae yna'n cynllunio ar gyfer cynnydd yn seiliedig ar hyn.* | • Gwerthusiadau gwersi<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. cyfres o wersi.<br>• Cynnwys modiwl craidd e.e. 008<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Defnydd o ddata asesu i lywio'r cynllunio<br>• Cyfnewid Cyfnod |
| **Themâu traws-gwricwlaidd** | *Mae'r darpar athro'n gwybod am yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth ddylunio'r cwricwlwm ac arloesi, ac mae'n eu deall ac yn ymwneud â nhw. Mae hefyd yn datblygu themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu ac mae'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. cysylltiadau ystyrlon â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Cynnwys modiwl craidd e.g. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Pontio |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | | • ‘Datblygu Gwybodaeth Bwnc’ (Tab 5) y PDP |
|  ***Addysgeg: Mireinio*** ***Addysgu tuag at ymarfer parhaus effeithiol iawn*** | | |
| **Rheoli’r amgylchedd dysgu** | *Mae’r darpar athro’n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy’n cyd-fynd â’r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly’n mynd ati i’w sefydlu a’i reoli’n effeithiol ac yn barhaus.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. cynlluniau eistedd, defnydd o adnoddau, dewis a dethol dulliau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Seminarau / sesiynau gyda’r Uwch Fentor/Mentor Pwnc/Dosbarth<br>• Cyfeiriadau at bolisi ymddygiad ysgolion, a'r defnydd ohono |
| **Asesu** | *Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.* | • Cynnwys modiwl craidd yn ymwneud ag asesiad, e.e. 008<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Cyfeiriadau at bolisi asesu ysgolion, a'r defnydd ohono<br>• Cofnodion asesu |
| **Gwahaniaethu** | *Mae’r darpar athro’n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo’u gwahanol anghenion.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. cyfeiriad at ymagweddau at wahaniaethu<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Cyfeiriadau at, a gweithredu gwybodaeth / strategaethau a drafodwyd yn y gynhadledd ADY |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
| --- | --- | --- |
| **Cofnodi ac adrodd** | *Mae'r darpar athro'n cynhyrchu cofnodion ac adroddiadau priodol, amserol a chywir ac mae'n rhoi adborth i helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r dysgu, a gwella'r profiad dysgu.* | • Cofnodion asesu yn unol â disgwyliadau ysgolion, e.e. polisi marcio a chofnodi ysgol<br>• Seminarau / sesiynau gyda'r Uwch Fentor/Mentor Pwnc/Dosbarth |
| **Cynnwys partneriaid mewn dysgu** | *Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.* | • Cynnwys modiwl craidd, e.e. 009<br>• Pontio<br>• PAP, e.e. noson rhieni, cofnod darllen rhwng yr ysgol a'r cartref, dyddiadur gwaith cartref.<br>• Ymwybyddiaeth o asiantaethau eraill sy'n gweithio gydag ysgolion, e.e. gwasanaethau cymdeithasol, elusennau, heddlu, seicolegydd addysg, arweinwyr crefyddol lleol<br>• Seminarau / sesiynau gyda'r Uwch Fentor/Mentor Pwnc/Dosbarth |
|  ***ADDYSGEG: Dylanwadu dysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr*** | | |
| **Herio a disgwyliadau** | *Er mwyn ysgogi'r dysgwyr i gyflawni, mae'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r darpar athro'n eu gosod ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. amcanion dysgu, meini prawf llwyddiant, gwahaniaethu<br>• Amrediad o adnoddau, e.e. defnyddio taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Amrediad o strategaethau addysgu a |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | | dysgu, gan gynnwys rhai arlein.<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Gwrando ar ddysgwyr** | *Mae'r darpar athro'n arddangos parodrwydd i geisio a gwrando ar farn dysgwyr, ac ystyried y farn honno, er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol a llawn yn eu dysgu eu hunain.* | • Adborth gan ddysgwyr<br>• Gwerthusiadau gwersi a chynllunio dilynol<br>• Cyfraniadau dysgwyr at amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Dysgwyr yn arwain dysgu** | *Wrth gynllunio a chyflawni, mae'r darpar athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrio am eu dysgu eu hunain.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. amcanion dysgu, amrediad o dasgau / gweithgareddau, gan gynnwys arlein (cydamseredig ac anghydamseredig) a wyneb-yn-wyneb<br>• Adborth gan ddysgwyr<br>• Gwerthusiadau gwersi a chynllunio dilynol.<br>• Cyfraniadau dysgwyr at amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr** | *Mae'r darpar athro'n hyrwyddo hunanysgogi a hunangyfeirio ymhlith dysgwyr, ac yn eu cefnogi i weithredu hynny wrth ddysgu.* | • Cynlluniau gwersi, e.e. ffocws gwersi, amcanion dysgu, meini prawf llwyddiant amrediad o weithgareddau, ac amrediad o adnoddau gan gynnwys taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Cyfeiriadau at bolisi ymddygiad / gwobrwyo / teilyngdod yr ysgol, a'r defnydd ohono |
| **Myfyrio ar ddysgu** | *Wrth gynllunio, mae'r darpar athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrio ar* | • Cynlluniau gwersi, e.e. amcanion dysgu, meini prawf llwyddiant, amrediad o dasgau |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | *ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu a'u gwerthuso.* | / gweithgareddau gan gynnwys taflenni gwaith, apiau, technegau arlein (cydamseredig ac anghydamseredig) a wyneb-yn-wyneb<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Deilliannau dysgu a lles** | *Mae'r darpar athro'n codi ymwybyddiaeth o sut mae profiadau dysgu a deilliannau perfformiad o safon uchel yn arwain at well dysgu a gwell synnwyr o les.* | • Cynnwys modiwl craidd e.g. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Llais y dysgwyr<br>• Cynlluniau a gwerthusiadau gwersi<br>• 'Uwchlaw a thu hwnt' (Tab 6) y PDP |
|  ***CYDWEITHREDU*** | | |
| **Ceisio cyngor a chymorth** | *Mae'r darpar athro'n mynd ati i geisio ac ymwneud â chefnogaeth o ystod ffynonnellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi a dysgu fel tîm, ac arddangos mwy a mwy o annibyniaeth.* | • Nodiadau arsylwi<br>• Darllen am destun penodol i ddatblygu ymarfer personol, e.e. blog yn ymwneud gyda rheolaeth dosbarth, erthygl am wahaniaethu<br>• Sesiynau Tiwtor Personol a Phroffesiynol<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Pontio<br>• Mynychu sesiynau datblygu proffesiynol a gynhelir gan yr ysgol a'r Brifysgol ac asiantaethau allanol eraill, e.e. 'Google Classroom'. |
| **Gweithio gyda chyd-weithwyr yn yr ysgol** | *Mae gweithio'n drefnus ac yn adeiladol gydag ystod o gydweithwyr i wella profiad dysgwyr yn nodwedd gyson o* | • Adfyfyrio Wythnosol<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | *waith y darpar athro. Myfyrir ar ddatblygu arbenigedd, a hynny wedi'i strwythuro ac yn broses bersonol neu gydweithredol, fel sy'n briodol.* | adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Pontio<br>• Profiad o fod yn rhan o Rwydwaith |
| **Cefnogi a datblygu eraill** | *Mae'r darpar athro'n datblygu cydberthnasau o safon uchel gyda chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr yn yr ysgol.* | • Adfyfyrio Wythnosol<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Gwaith dysgwyr<br>• Profiadau o addysgu fel tîm<br>• Cyfraniadau at weithgareddau ysgol-eang<br>• Enghreifftiau o waith dysgwyr |
| **Galluogi gwelliannau** | *Mae enghreifftiau o welliannau o ran deilliannau i ddysgwyr ar ôl i'r athro geisio cyngor, a'i ddilyn.* | • Adfyfyrio Wythnosol<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. targedau personol a sut yr eir i'r afael â'r rhain wrth gynllunio<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Gwaith dysgwyr |
|  **DYSGU PROFFESIYNOL** | | |
| **Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil** | *Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.* | • Pontio<br>• Cynnwys modiwl craidd e.e. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Aseiniadau<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. dewisiadau o ran strategaethau addysgu a dysgu, strategaethau asesu, gan gynnwys profiadau arlein (cydamseredig ac |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | | anghydamseredig) a wyneb-yn-wyneb.<br>• 'Ymchwil' (Tab 4) y PDP |
| **Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol** | *Mae'r darpar athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion.* | • Pontio<br>• Cynnwys modiwl craidd, e.e. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Aseiniadau<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. dewisiadau o ran strategaethau addysgu a dysgu, strategaethau asesu, gan gynnwys profiadau arlein (cydamseredig ac anghydamseredig) a wyneb-yn-wyneb.<br>• 'Ymchwil' (Tab 4) y PDP<br>• Profiad o fod yn rhan o Rwydwaith |
| **Dysgu proffesiynol parhaus** | *Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn dylanwadu ar fyfyrio beirniadol a dysgu parhaus y darpar athro ac mae'n hybu datblygu a thwf proffesiynol.* | • Pob rhan o'r PDP fel corff cyfannol o dystiolaeth<br>• 'Cynnydd Proffesiynol' (Tab 3) y PDP fel cofnod cyfredol o gryfderau a meysydd i'w datblygu |
| **Sgiliau Cymraeg** | *Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.* | • Datblygiad Cymraeg, e.e. sesiynau Cymraeg yn y Brifysgol<br>• Fframwaith y Gymraeg a'r dystiolaeth y cesglir ar gyfer hwnnw<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. sgiliau trawsgwricwlaidd a chysylltiadau ystyrlon i'r cwricwlwm<br>• Adnoddau gwersi<br>• Gwaith dysgwyr<br>• 'Datblygu Gwybodaeth Bwnc' (Tab 5) y PDP |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
|  **ARWEINYDDIAETH** | | |
| **Cymryd cyfrifoldeb personol** | *Mae'r darpar athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.* | • Enghreifftiau sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Cynlluniau a gwerthusidau gwersi<br>• Gwaith ac adborth gan ddysgwyr |
| **Arfer cyfrifoldeb corfforaethol** | *Mae'r darpar athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.* | • Enghreifftiau sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Sesiynau Tiwtor Personol a Phroffesiynol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion yn ymwneud gyda diogelu |
| **Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni** | *Drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion a chyd-destunau eraill, mae'r darpar athro'n arddangos ei ddealltwriaeth o sut y dylid arwain dysgu, a'i ymrwymiad i wneud hynny.* | • Pontio<br>• Cynnwys modiwl craidd, e.e. 008, 009, modiwl Ymchwil<br>• Profiad o fod yn rhan o Rwydwaith<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• 'Uwchlaw a thu hwnt' (Tab 6) y PDP |
| **Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol** | *Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus.* | • Pontio<br>• Cynnwys modiwl craidd, e.e. 008, 009, modiwl Ymchwil<br>• 'Uwchlaw a thu hwnt' (Tab 6) y PDP<br>• Profiadau Dewisol |

| Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth | Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC) | Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr) |
|---|---|---|
| | | • Seminarau / sesiynau gyda'r Uwch Fentor/Mentor Pwnc/Dosbarth |
|  ***ARLOESI*** | | |
| **Cynnig arbenigedd** | *Mae gan y darpar athro stoc gynyddol o dechnegau dysgu, wrth i arbenigedd gael ei ddatblygu a dechrau ffynnu, er mwyn helpu a gwella datblygiad eraill.* | • Creu a rhannu adnoddau, e.e. taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Meicro-addysgu<br>• Defnydd o radd neu gymhwyster arall er mwyn datblygu ymarfer personol ac ymarfer eraill<br>• Cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac arfer astudiwyd fel rhan o gynnwys modiwl craidd, e.e. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk) |
| **Datblygu technegau newydd** | *Mae ymchwil ar ddatblygiad dirnadol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgeg. Mae'r darpar athro'n gallu arddangos sut y mae'n defnyddio dirnadaeth broffesiynol a dadansoddiad beirniadol i lunio a datblygu arferion.* | • Adnoddau, e.e. e.e. taflenni gwaith, apiau, technegau arlein cydamseredig ac anghydamseredig.<br>• Pontio<br>• Cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac arfer astudiwyd fel rhan o gynnwys modiwl craidd, e.e. 007, 008, 009, modiwl ymchwil<br>• Aseiniadau<br>• Cynlluniau gwersi, e.e. amrywiaeth o ddulliau addysgegol, strategaethau asesu<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Pontio<br>• 'Ymchwil' (Tab 4) y PDP |
| **Gwerthuso effaith newid** | *Mae'r darpar athro'n gweithredu i gael cymorth a chyngor* | • Cynnwys modiwl craidd e.e. 007, 008, 009, |

| **Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth** | **Tystiolaeth ar gyfer dyfarnu SAC (Safonau SAC)** | **Ffynonellau tystiolaeth posib (Heb fod yn rhestr gynhwysfawr)** |
|---|---|---|
| **mewn arfer** | *gan gydweithwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yn yr ystafell ddosbarth fel bod modd gwerthuso a dadansoddi y ffyrdd hyn o weithio, a'u rhannu ag eraill.* | modiwl ymchwil<br>• Cynlluniau a gwerthusiadau<br>• gwersi<br>• Adfyfyrio Wythnosol<br>• Pontio<br>• Sylwadau yn y Dyddlyfr Dysgu ac adroddiadau blaenorol (gwefan PDPA/SWWCTE.ac.uk)<br>• Ymchwil' (Tab 4) y PDP |